

Bwletin Awdurdod S4C Gorffennaf 2000

Penodi Ysgrifennydd i'r Awdurdod

Adroddodd y Cadeirydd yn ffurfiol bod John Howells wedi ei benodi fel Ysgrifennydd i'r Awdurdod. Bydd Mr Howells, sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn Adran Addysg y Cynulliad Cenedlaethol fel Pennaeth yr Adran Perfformiad Ysgolion, yn dechrau ar ei swydd yn gynnar ym mis Medi.

Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol

Cyfeiriwyd at y ffaith bod Iona Jones, y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol, yn gadael S4C i fynd at swydd newydd, sef, Rheolwr Materion Corfforaethol Grwp HTV. Diolchodd yr Awdurdod i Iona Jones am ei chyfraniad arbennig at waith S4C yn ystod y pum mlynedd y bu gyda'r corff.

Y Byd ar Bedwar

Trafododd yr Awdurdod y rhaglen a ddarledwyd ar bwnc y defnydd o Saesneg yn rhaglenni Cymraeg S4C, lle cyfwelwyd y Prif Weithredwr, cynrychiolwyr Cylch yr Iaith, ac eraill yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol. Teimlai'r Awdurdod, bod y cynhyrchwyr wedi llwyddo i greu rhaglen gytbwys, a bod yr ystod eang o ddadleuon wedi'u cyflwyno gerbron gwylwyr S4C.

Adroddiad Blynyddol 1999

Cyfeiriwyd at y ffaith bod Adroddiad Blynyddol 1999 wedi'i gyhoeddi ar 29 Mehefin 2000. Mynegwyd boddhad gyda ffurf y ddogfen yn enwedig y modd yr oedd yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng rôl yr Awdurdod, rôl y Tîm Rheoli, a gwaith a thargedau gwahanol adrannau S4C.

Cais am gyllid ychwanegol gan y DCMS

Cytunodd yr Awdurdod y dylid danfon cais at yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon am gyllid ychwanegol ar gyfer 2001 tuag at gost darlledu digidol yn ychwanegol at unrhyw gynigion pellach y byddai S4C yn eu rhoi gerbron yr Adran ar gyfer ariannu uwch i'w cynnwys yn y Ddeddf Gyfathrebu arfaethedig.

Cân i Gymru

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad pellach ar ddiwyddiadau noson *Cân i Gymru* eleni. Ar ddiwedd y dydd, teimlwyd bod yna wersi pwysig i S4C gymryd sylw ohonynt, rhai yn benodol yn ymwneud â chystadleuaeth *Cân i Gymru* ei hun, ond yn bwysicach, efallai, eraill yn ymwneud â pherthynas S4C â'i gwylwyr. Roedd y materion hyn wedi'u trafod yn y Tîm Rheoli a, thwy'r system briffio adrannol, ymhlith holl staff S4C.

Cyfarfodydd Chwe Misol gyda'r Cwmnïau Annibynnol

Rhodddwyd adroddiad ar lafar i'r Awdurdod ar y cyfarfodydd a gynhaliodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni gyda'r holl gwmnïau annibynnol sy'n cyflenwi rhaglenni i S4C. Roedd holl agweddau perfformiad rhaglenni wedi'u trafod gyda'r cwmnïau yn ogystal â materion marchnata, datblygu'r we, hyfforddiant, y broses gomisiynu nesaf a'r dyfodol. Roedd yr ymarfer wedi cynnig cyfle i swyddogion S4C drafod yn fwy eang yr amserlen; lle'r oedd S4C yn gweld ei hun yn mynd yn y blynyddoedd i ddod; a beth oedd ei blaenoriaethau. Gwelwyd bod y trafodaethau wedi bod o fudd i S4C ddeall yn well safbwyntiau'r cwmnïau ond gobeithiwyd hefyd bod gan y cwmnïau gwell dealltwriaeth o amcanion S4C.

Cyflwyniad y Comisiynydd Rhaglenni Adloniant Ysgafn

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniad gan Huw Chiswell, y Comisiynydd Rhaglenni Adloniant Ysgafn ar waith ei uned. Soniwyd am ba mor eang oedd natur y rhaglenni oedd yn cwmpo o fewn y categori hwn. I roi blas ar y gweithgaredd o fewn y maes, rhodddwyd sylw i raglenni wedi'i dosbarthu o dan y penawdau: adloniant cyffredinol, cerddoriaeth ysgafn, adloniant ffeithiol neu gylchgrawn, rhaglenni cwis a gemau chwarae neu banel, comedi a drama. Ar ddiwedd y cyflwyniad trafodwyd syniadau ar gyfer cryfhau rhaglenni yn y maes yma a chodwyd nifer o bwyntiau i'w hystyried ymhellach gan y Tîm Rheoli.

Materion Eraill

Nodwyd yr adroddiadau canlynol:

- Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2000.
- Adroddiad yn ymwneud â'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth, a'r Pwyllgor Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion y Grwp Cydymffurfiaeth
- Adroddiad Cwynion
- Perfformiad rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Gweithgareddau Masnachol.

Cyfarfodydd Nesaf

Cynhelir cyfarfod busnes nesaf yr Awdurdod ar 28 Gorffennaf 2000. Ni fydd yr Awdurdod yn cyfarfod ym mis Awst. Bydd cyfarfod agored nesaf yr Awdurdod yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Hamdden ym Mlaenau Ffestiniog ar nos Iau, 28 Medi 2000.